

QWB 22.2 - Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mai 2019

Yn bresennol:

Ann Evans (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Hefyd yn bresennol:

Jo Richards (JR), Kate Crabtree (KC), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN), Liz Frizi (LF) - eitem 9, Kate Stokes Davies (KSD) – eitem 11, Emyr George (EG) – eitem 4, Rebecca Olney (RO)-Llywodraeth Cymru, David Richards (DR) – Llywodraeth Cymru – eitem 7, Julia Douch (JD) – Llywodraeth Cymru – eitem 7.

Ymddiheuriadau:

Y Gweinidog Addysg.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a hysbysodd y Bwrdd fod y Gweinidog Addysg wedi anfon ymddiheuriadau oherwydd amgylchiadau personol. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Anne Marie Duffy a Jayne Woods, gan mai hwn oedd eu cyfarfod Bwrdd cyntaf.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant. Nododd David Jones ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ofcom.
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw faterion y dymument eu trafod yn y papurau gwybodaeth. Cytunwyd i drafod y briff cyfathrebu o fewn y prif agenda (eitem 11).

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019 a Materion sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019 fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.
- 2.2. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad am y camau gweithredu yn y cofnodion, ac roedd pob un ohonynt wedi'i gwblhau.

Materion yn Codi

- 2.3. Holodd y Bwrdd am ganlyniad y cyngor cyfreithiol a gymerwyd ynglŷn ag ymwneud Cymwysterau Cymru â Phrofion Sampl Cenedlaethol. Cadarnhaodd Alison Standfast (AS) fod cyfreithwyr o'r farn y gallai ddod o fewn ein cylch gwaith, ac y byddai'r farn hon yn cael ei chryfhau pe gallai Cymwysterau Cymru ddymuno

defnyddio canlyniadau unrhyw brofion yn y dyfodol o fewn ei ddull o gynnal safonau.

- 2.4. Gofynnodd y Bwrdd am y wybodaeth ddiweddaraf ar recriwtio'r Cadeirydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael sylw yn ei hadroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau wedi'u cwblhau.

3. Diweddariad/Adroddiad y Cadeirydd

- 3.1. Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad ar ei gweithgareddau diweddar er gwybodaeth i'r Bwrdd. Roedd y gweithgareddau diweddar yn cynnwys cyfarfod â Chyngor y Gweithlu Addysg, rheoli perfformiad y Prif Swyddog Gweithredol, cyfarfod â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus mewn perthynas â chydarddoldeb a thrafodaethau'r Bwrdd ynghylch perfformiad ac ymgysylltu.
- 3.2. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio'r Bwrdd. Byddai Jayne Woods yn ymuno â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a byddai Anne Marie Duffy yn ymuno â'r Pwyllgor Adnoddau. Roedd proses ymgeisio am swydd y Cadeirydd wedi cau ac yna roedd cyfweiliadau ffurfiol Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal. Gwnaed argymhelliad i'r Gweinidog addysg gyda'r bwriad y byddai'r ymgeisydd a ffefrir yn dod yn Gadeirydd newydd o fis Hydref 2019.
- 3.3. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod dirprwyaethau i bwyllgorau wedi'u codi yn yr adolygiad o berfformiad y Bwrdd ac yn ystod archwiliadau iechyd diweddar y Pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd i bob Pwyllgor ystyried beth, os unrhyw beth, y gellid ei ddirprwyo iddo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf, a byddai'r Pennaeth Llywodraethu yn cyflwyno cynnig yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019.
- 3.4. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd ei bod wedi cyfarfod â Chadeirydd CBAC, a oedd wedi rhoi sicrwydd am y trefniadau dros dro a oedd ar waith nes bod Prif Swyddog Gweithredol newydd wedi'i recriwtio. Roedd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng dau uwch aelod o staff, gydag un yn gweithredu fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro ac un yn Swyddog Cyfrifol i reoleiddwyr, a rhoddwyd sicrwydd da am y trefniadau a roddwyd ar waith i oruchwylio cyfnod arholiadau'r haf. Cadarnhawyd bod panel craffu o Fwrdd CBAC wedi'i sefydlu i oruchwylio gweithrediadau.
- 3.5. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod Judith Askew wedi'i phenodi'n Bennaeth yr Uned Noddi, ond y byddai Rebecca Olney yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.
- 3.6. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nodi'r diweddariad.

Pob Pwyllgor Bwrdd i ystyried yr hyn y gellid ei ddirprwyo a JN i gyflwyno cynnig yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd gynnwys cyffredinol diweddariad y Cadeirydd.

4. Myfyrdodau o ddiwrnod datblygu'r Bwrdd ar y cwricwlwm

- 4.1. Croesawodd y Cadeirydd Emyr George (EG) i'r cyfarfod a'i wahodd i arwain trafodaeth yn dilyn y drafodaeth gychwynnol a gynhaliwyd ar ddiwrnod datblygu'r Bwrdd ar 15 Mai 2019.
- 4.2. Gofynnwyd i'r Bwrdd a oeddent yn fodlon â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer ystyried yr ymgynghoriad arfaethedig. Byddai'r amserlen a gynigiwyd yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r bwriad i ymgynghori yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2019, gyda'r opsiwn i wneud sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ei hun y tu allan i'r pwyllgor yn ddiweddarach. Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn derbyn yr amserlen a gofynnodd am i ddigon o amser gael ei neilltuo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.
- 4.3. Hwylusodd EG drafodaeth ar ddiwygiadau i ddatganiad o weledigaeth y prosiect, a wnaed i ateb sylwadau a wnaed ar y diwrnod datblygu. Cyflwynodd aelodau'r Bwrdd nifer o awgrymiadau pellach i wella'r datganiad o weledigaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd amserlen ymwneud y Bwrdd â diwygio'r cwricwlwm a rhoddodd sylwadau ar y datganiad o weledigaeth.

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 5.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol gan nodi ei fod yn cwmpasu eitemau nad oeddent yn ymddangos mewn manau eraill ar agenda'r Bwrdd.
- 5.2. *Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol* - Dywedodd PB wrth y Bwrdd y byddai'r ddau gymhwyster sy'n weddill - (cymhwyster gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a chymhwyster hybrid Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad plant (CCPLD)) yn cael eu cymeradwyo erbyn diwedd mis Mai. Amlinellodd PB y mesurau cefnogi ac wrth gefn a gymerwyd a hysbysodd y Bwrdd fod llythyr wedi'i anfon at bob coleg Addysg Bellach i roi gwybod iddynt am yr amserlenni; pryd y byddai'r deunyddiau terfynol ar gael ac awgrymiadau am ddarpariaeth amgen o fewn y gyfres newydd o gymwysterau Cymeradwy. Nododd PB fod y cymhwyster lefel 4 wedi'i ohirio am fod cyrff y sector yn dymuno adolygu'r cynnwys eto. Cydnabu'r Bwrdd y gwaith cadarnhaol a oedd wedi'i wneud i gymeradwyo'r

cymwysterau, ond nododd ei bryder ynghylch yr oedi a dywedodd ei bod yn bwysig cyfathrebu â'r colegau Addysg Bellach. Gofynnodd y Bwrdd pa wersi oedd wedi eu dysgu. Cadarnhaodd PB fod ymarferion gwersi a ddysgwyd wedi'u cynnal drwy gydol y prosiect a bod y prosiect Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig dilynol wedi elwa o hyn - gyda Cymwysterau Cymru yn gosod gofynion mwy penodol ar y dechrau a hynny ar ôl gweithio ar fap proses.

- 5.3. *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* – Dywedodd PB fod y broses gaffael ar gyfer y cymwysterau Sylfaen, Dilyniant a Phrentisiaeth newydd bron wedi'i chwblhau a bod cyflenwr a ffefrir wedi'i ddewis. Dywedodd PB y byddai'r dyfarniad yn cael ei wneud ar 11 Mehefin 2019. Gofynnodd Aelodau'r Bwrdd ar ba bwynt y byddai'n briodol i adolygu'r strategaeth ar Gymwysterau Galwedigaethol a'r dull o adolygu'r sector (gan y byddai gan y sectorau sy'n weddill nifer is o ddysgwyr). Cytunodd PB y byddai angen ailystyried y strategaeth, ac y byddai hyn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda'r Cadeirydd newydd.
- 5.4. *Ad-drefnu* - Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod yr ymgynghoriad â staff wedi'i gwblhau a bod penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn ag adleoli. Dywedodd PB wrth y Bwrdd y byddai'n cael ei weithredu fesul cam o fis Mehefin 2019 i fis Medi 2019. Dywedodd PB wrth y Bwrdd ei bod wedi bod yn bosibl lleoli'r holl staff yn y timau a ddewiswyd ganddynt.
- 5.5. Dywedodd KC wrth y Bwrdd fod Cymwysterau Cymru wedi cwblhau darn o waith i ail-gyfeirio Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) i'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE). Roedd hi'n cyflwyno'r adroddiad drafft ym Mrwsel ym mis Mehefin. Roedd hefyd wedi ymweld â Jordan gyda'r British Council i gymryd rhan mewn gweithdy ar fframweithiau cymwysterau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a diolch iddo am ei ddiweddariad. Diolchodd y Bwrdd hefyd i'r sefydliad am ei waith caled ar y prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

6. Cyfres arholiadau'r haf

- 6.1. Rhoddodd Jo Richards (JR) drosolwg o ymagwedd Cymwysterau Cymru at gyfres arholiadau'r haf a rhoddodd wybodaeth a sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â'r meysydd canlynol:
- Rhaglen fonitro.
 - Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
 - Data cofrestru.
 - Risg a materion.
- 6.2. Cyfeiriodd JR y Bwrdd at y cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac amlygodd y gweithgareddau newydd a oedd wedi'u cyflwyno ar gyfer cyfres arholiadau'r haf. Roedd hyn yn cynnwys adran Arholiadau 360 ar y wefan, blog gan

y Prif Swyddog Gweithredol, awgrymiadau ar gyfer swyddogion arholiadau a phartneriaeth gyda Mind Cymru a oedd wedi ysgrifennu erthygl ar straen arholiadau i fyfyrwyr a rhieni. Hysbysodd JR y Bwrdd fod yr arolwg 'Dweud eich Dweud' ar agor, a nododd y sylwadau a gafwyd hyd yn hyn mewn perthynas â TGAU Ffrangeg a Chymraeg Ail Iaith.

- 6.3. Trafododd y Bwrdd y data cofrestru yn fanwl. Cadarnhaodd JR y byddai'r ystadegau swyddogol yn cael eu cyhoeddi ar 24 Mai, a bod y data a ddarparwyd yn ddangosol ac yn gysylltiedig â CBAC yn unig. Trafododd y Bwrdd y gostyngiad mewn leithoedd Tramor Modern. Nododd PB fod leithoedd Tramor Modern hefyd wedi cael eu trafod gan y Pwyllgor Rheoleiddio a byddai'n cael ei godi gyda'r Gweinidog. Nododd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda Tonia Antoniazzi AS yn ddiweddarach y mis hwnnw.
- 6.4. Cyfeiriodd JR at y dadansoddiad risg yn y papur a hysbysodd y Bwrdd fod y Pwyllgor rheoleiddio wedi mynd ati i archwilio'r risg yn fanwl yn y cyfarfod ar 2 Mai. Tynnodd JR sylw at y risgiau allweddol a'r camau lliniaru.
- 6.5. Gofynnodd y Bwrdd gwestiynau i ddeall yn well sut roedd safonau'n cael eu cynnal a rhagfynegiadau'n cael eu defnyddio, yn enwedig gyda'r gwahaniaethau rhwng y tair gwlad. Gofynnodd yr aelodau hefyd sut y cafodd ffiniau gradd isel eu trin ac o dan ba amgylchiadau y byddai'r sefydliad yn ystyried gweithredu i ail-raddnodi. Sicrhawyd y Bwrdd bod y sefydliad yn rheoli'r gwaith o gynnal safonau'n effeithiol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd yr ymagwedd at gyfres arholiadau haf 2019.

7. Llywodraethu'r Sector Cyhoeddus

- 7.1. Croesawodd y Cadeirydd David Richards (DR), Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg, Llywodraeth Cymru a Julia Douch (JD), Pennaeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru.
- 7.2. Tynnodd DR sylw at bwysigrwydd egwyddorion NOLAN. Rhoddodd JD grynodedd o ganfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i adolygu nawdd ar draws cyrff cyhoeddus. Dywedodd JD fod yr adolygiad wedi arwain at 37 o argymhellion. Tynnodd JD sylw at ddau argymhelliad arwyddocaol a oedd yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru; dileu'r gweithdrefnau galw i mewn a dileu statws sylwedydd Llywodraeth Cymru ar fyrddau. Nododd JD y byddai'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn cynnal adolygiadau o gyrrff noddi gan ddechrau gyda'r Llyfrgell Genedlaethol yn yr hydref. Byddai'r rhain yn ymdrin â phwrpas, llywodraethu, gwneud penderfyniadau, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- 7.3. Diolchodd y Cadeirydd i DR a JD am eu presenoldeb ac a'u cyflwyniad yng nghyfarfod y Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y cyflwyniad ar lywodraethu gan y sector cyhoeddus.

8. Cynllun gweithredol ac adroddiad cyllid 2018-19

Adroddiad ar y cynllun gweithredol

- 8.1. Rhoddodd JN drosolwg i'r Bwrdd o'r sefyllfa derfynol yn erbyn y blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2018-19. Roedd y cynllun yn cynnwys pum blaenoriaeth weithredol, 24 is-flaenoriaeth ac 83 gweithgaredd sylfaenol - nid oedd un flaenoriaeth a dwy is-flaenoriaeth wedi'u cyflawni'n llawn yn ystod y flwyddyn ac roedd y ddwy yn ymwneud ag eitemau a oedd wedi'u hadrodd i'r Bwrdd yn flaenrol ac a gytunwyd arnynt. Rhoddodd JN grynodedb o'r is-flaenoriaethau:
- Camau gweithredu yn dilyn yr adolygiad lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.
 - Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol.
- 8.2. Cadarnhaodd JN fod effaith y prosiect lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi arwain at flaenoriaeth weithredol dau - cyflwyno'r agwedd cymwysterau galwedigaethol o'n gwaith, gan barhau'n goch ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd JN fod y pedair blaenoriaeth weithredol arall wedi'u cyflawni. Cadarnhaodd JN y bydd y ddwy is-flaenoriaeth a oedd yn anghyflawn yn cael eu trosglwyddo i gynllun gweithredol 2019-20 a byddai cynnydd yn erbyn y rhain yn parhau i gael ei fonitro a'i adrodd yn fisol. Argymhellodd y Bwrdd y dylid cael cysondeb wrth sgorio ac y dylid graddio unrhyw flaenoriaethau na chwblhawyd ar ddiwedd y flwyddyn yn goch.
- 8.3. Amlinellodd JN rai llwyddiannau a rhai meysydd dysgu a gafwyd drwy gydol y flwyddyn a thrafod sut y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu yn 2019-20. Roedd hyn yn cynnwys mwy o gysondeb yn y broses sgorio a sicrhau bod y cynllun gweithredol ar gael i'r holl staff.

Adroddiad cyllid

- 8.4. Cyflwynodd AS y papur. Hysbyswyd y Bwrdd o'r sefyllfa alldro ar gyfer 2018-19, o £7.844m, yr ariannwyd £177k ohono o'r cronfeydd wrth gefn, sy'n golygu gwariant yn erbyn arian Llywodraeth Cymru o £7.667m a thanwariant o £375k. Nododd AS y bu symudiad o £18k o'r safle a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth, a hynny o ganlyniad i lithriad yn y rhaglen ymchwil. Amlygodd AS fod gwariant yn cynyddu bob blwyddyn a bod y sefyllfa alldro o fewn yr ystod a adroddwyd i'r Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.
- 8.5. Cadarnhaodd AS fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru i gadarnhau'r canlynol:
- Gellid cario'r gronfa wrth gefn o £353k ymlaen i 2019-20.
 - Byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu £225k tuag at y cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr, yn y flwyddyn 2019-20.
 - Byddai Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r diffyg yn y cyfraniadau pensiwn ar gyfer tri aelod o staff CBAC, a oedd yn debygol o drosglwyddo eu

pensiynau i gynllun Cymwysterau Cymru. Nododd AS y byddai hyn yn cael ei ddangos fel rhwymedigaeth wrth gefn yn y cyfrifon.

- 8.6. Cadarnhaodd AS bod trafodaethau ynglŷn â'r adnoddau ychwanegol i gefnogi diwygio'r cwricwlwm yn mynd yn eu blaen gyda Llywodraeth Cymru a rhagwelwyd y byddai gohebiaeth yn fuan, yn cadarnhau y byddai'r arian ychwanegol ar gael ar gyfer 2019-20. Nododd AS na ellid rhoi unrhyw sicrwydd y tu hwnt i 2019-20 oherwydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant y DU.
- 8.7. Cadarnhaodd AS bod cyllideb 2019-20 wedi'i diweddarau i adlewyrchu cynnwys y llythyr gan Lywodraeth Cymru a gofynnodd i'r Bwrdd gymeradwyo trosglwyddo £18,000 i'r gyllideb gyflogau. Esboniodd AS bod hyn o ganlyniad i newid yn yr ad-drefnu er mwyn creu rhagor o gymorth gweinyddol. Cymeradwyodd y Bwrdd yr addasiad.
- 8.8. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol gan nodi y byddai mwy o ansicrwydd a newidynnau i'w rheoli dros y flwyddyn nesaf. Llongyfarchodd y Bwrdd y tîm cyllid ar eu dull o fonitro a'r sefyllfa derfynol o fewn yr amrediad a roddwyd, gan nodi eu bod wedi derbyn digon o sicrwydd yn ystod y flwyddyn. Trafododd y Bwrdd y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm a chydabod y goblygiadau sylweddol o ran adnoddau; cynghorwyd y gallai fod angen ail-flaenoriaethu gwaith a bod yn realistig o ran amserlenni.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y sefyllfa alldro a ragwelwyd a chymeradwyodd y trosglwyddiad o £18,000 i gyllideb cyflogau 2019-20.

9. Trosolwg o'r contractau sydd i'w tendro dros £100,000

- 9.1. Croesawodd y Cadeirydd Liz Frizi (LF) i'r cyfarfod.
- 9.2. Cyflwynodd LF y papur a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd, yn unol â gofynion Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd, i ddechrau'r broses dendro ar gyfer tri contract a oedd yn fwy na £100,000. Gofynnodd LF hefyd am gymeradwyaeth i ohirio gofynion ychwanegol ar gyfer gwasanaethau ymchwil amrywiol a allai olygu bod cyfanswm y gwariant gydag un neu fwy o gyflenwyr dan contract yn fwy na £100,000.

Meddalwedd Cyllid, Treuliau ac Adnoddau Dynol

- 9.3. Nododd LF y byddai'r contract presennol ar gyfer meddalwedd cyllid, treuliau ac adnoddau dynol yn dod i ben ar 21 Gorffennaf 2021. Y bwriad oedd dechrau'r gweithgarwch eleni i gynllunio'r broses gaffael, er mwyn caniatáu ar gyfer yr ymarfer tendro a gweithredu/ bod system yn mynd yn fyw cyn i'r contract presennol ddod i ben.

- 9.4. Cadarnhaodd LF y byddai Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) yn cael ei gyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE i hysbysu'r farchnad o'r caffaeliad a gynlluniwyd ac i ddechrau ymgysylltu â darpar gyflenwyr.
- 9.5. Trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd y gallai gweithgaredd tendro ar gyfer meddalwedd cyllid, treuliau ac adnoddau dynol ddechrau.

Gwasanaethau Cyfreithiol Cyflogaeth a Masnach

- 9.6. Hysbysodd LF y Bwrdd y byddai'r contract presennol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol yn ymwneud â chyflogaeth a masnach yn dod i ben ar 5 Ionawr 2020. Nododd LF, yn seiliedig ar wariant y ddwy flynedd flaenorol, y gallai'r gwerth a ragwelir ar gyfer contract pedair blynedd fod yn llai na £100,000, fodd bynnag, gofynnwyd am gymeradwyaeth rhag ofn y byddai cynnydd annisgwyl mewn angen yn ystod oes y contract newydd.
- 9.7. Gwnaeth LF y Bwrdd yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ail-dendro fframwaith newydd ar gyfer y gwasanaeth a rhagwelwyd y byddai Cymwysterau Cymru yn contractio o dan y fframwaith newydd. Sicrhaodd LF y Bwrdd fod yna gynllun wrth gefn yn ei le i ymestyn y cytundeb presennol pe bai oedi wrth ddyfarnu'r fframwaith newydd.
- 9.8. Trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd y gallai gweithgaredd tendro ar gyfer gwasanaethau masnachol a chyfreithiol ddechrau.

Cymorth Cronfa Ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)

- 9.9. Hysbysodd LF y Bwrdd y byddai'r contract presennol ar gyfer cymorth QiW yn dod i ben ar 25 Tachwedd 2019. Nododd LF y byddai gwerth amcangyfrifedig y contract newydd yn seiliedig ar y cyfraddau diwrnod presennol o bedwar diwrnod y mis a phot cyllid o £10,000 i'w ddefnyddio yn ôl yr angen. Amcangyfrifwyd y byddai'n £110,000, dros gyfnod contract o ddwy flynedd.
- 9.10. Trafododd y Bwrdd gronfa ddata QiW a gwirio bod y gyfradd ddyddiol yn cynrychioli gwerth am arian. Ar ôl trafod, cymeradwyodd y Bwrdd y gallai gweithgaredd tendr ar gyfer cymorth cronfa ddata QiW ddechrau.

Gwasanaethau Ymchwil

- 9.11. Hysbysodd LF y Bwrdd fod angen wedi'i nodi i ymestyn gweithgareddau ymchwil amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- arolwg o hyder y cyhoedd
 - ymarferion ymgysylltu â dysgwyr
 - arolwg ar-lein o ganfyddiadau athrawon
 - ymchwil ansoddol gyda dysgwyr i asesu di-arholiad

- asesu sgiliau mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol

- 9.12. Cadarnhaodd LF fod pum contract wedi eu dyfarnu y llynedd, a phob un ohonynt yn werth llai na £100,000. Ymgorfforwyd yr opsiwn i ohirio gwaith tebyg yn y dyfodol. Nododd LF, pe bai angen i Cymwysterau Cymru wneud cais am waith ychwanegol gan y cyflenwyr hyn, y gallai cyfanswm gwerth y contract ar gyfer un neu fwy fod yn fwy na £100,000.
- 9.13. Trafododd y Bwrdd yr angen i ohirio amryw o brosiectau ymchwil a gofynnodd i'r sefydliad ystyried a ddylid hysbysebu contractau yn y dyfodol yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE. Roedd y Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r alwad am brosiectau ymchwil amrywiol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- Cymeradwyodd y Bwrdd y gallai gweithgaredd tendro ddechrau ar gyfer meddalwedd cyllid, treuliau ac adnoddau dynol (cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw), gwasanaethau cyfreithiol cyflogaeth a masnach, cymorth QiW a chymeradwyodd y cais am ofynion ychwanegol ar gyfer cytundebau ymchwil.

10. Cod Ymarfer y Bwrdd

- 10.1. Cyflwynodd JN God Ymarfer y Bwrdd a hysbysodd Aelodau'r Bwrdd fod eu hadborth wedi'i ymgorffori yn y ddogfen, wedi iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod Ionawr 2019.
- 10.2. Trafododd y Bwrdd y ddogfen ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r cod ymarfer, yn amodol ar fân newidiadau. Gofynnodd y Bwrdd am i'r ddogfen gael ei hadolygu ymhen 12 mis.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- Cymeradwyodd y Bwrdd y Cod Ymarfer, yn amodol ar fân newidiadau.

11. Ymgysylltu ag aelodau dewisol

- 11.1. Croesawodd y Kate Stokes Davies (KSD) i'r cyfarfod. Hysbysodd Aelodau'r Bwrdd ei bod am gyflwyno dilyniant i'r sesiwn a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd yn Ionawr 2019, dan arweiniad Postif Politics, a roddodd gyflwyniad ar y tirlun gwleidyddol yng Nghymru a sut yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi newid yn ystod ei dymor presennol.
- 11.2. Gofynnodd KSD nifer o gwestiynau i sefydlu awydd y Bwrdd i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafwyd yr awgrymiadau canlynol gan y Bwrdd:
- Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o Cymwysterau Cymru a nodi'r negeseuon allweddol e.e. rydym yn annibynnol ac rydym yn cadw'r system

gymwysterau yn ddiogel. Awgrymwyd y byddai neges fer a bachog yn briodol.

- Mae angen ehangu cyfathrebu e.e. i Gynghorwyr Arbennig.
- Byddai digwyddiadau yn ddull defnyddiol o ymgysylltu, ac felly mae angen nodi cynnwys perthnasol a phriodol er mwyn denu'r gynulleidfa darged gywir.

11.3. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y briff cyfathrebu a ddsbarthwyd fel papur gwybodaeth, a gofynnwyd i KSD ddarparu trosolwg. Awgrymodd Aelodau'r Bwrdd y dylai'r neges allweddol ynghylch ffioedd adlewyrchu'r ffaith ein bod yn fodlon y gellid cyfiawnhau'r cynnydd, nid ein bod yn fodlon ar sut mae ffioedd yn cymharu ar draws y Deyrnas Unedig.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- Rhoddodd y Bwrdd adborth ar ei awydd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac anogodd fwy o ymgysylltiad ag aelodau etholedig.

12. Adroddiad Y Pwyllgor Rheoleiddio

- 12.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 2 Mai. Roedd cofnodion 21 Chwefror wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 12.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 2 Mai yn ymwneud â'r Polisi Cosbau Ariannol. Roedd eitemau eraill yn cynnwys cyfres arholiadau'r haf yn cynnwys archwiliad manwl o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gyfres, a'r Polisi Amodau Trosglwyddo. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bu dwy agwedd ar y Polisi Amodau Trosglwyddo lle y gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ac felly byddai'r polisi hwn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

13. Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor

- 13.1. Cadarnhaodd JN fod un penderfyniad a wnaed y tu allan i'r pwyllgor; cymeradwo'r Polisi Cosbau Ariannol. Crynhodd JN y sylw a dderbyniwyd y tu allan i'r pwyllgor a hysbysodd y Bwrdd ei fod wedi ei dderbyn a'i ymgorffori yn y Polisi. Cadarnhaodd JN fod pob aelod o'r Bwrdd wedi ymateb. Nododd y Bwrdd y penderfyniad terfynol yn ffurfiol.

14. Unrhyw fater arall

- 14.1. Dywedodd AS wrth y Bwrdd fod partneriaeth wedi'i sefydlu â Remploy i ddatblygu rhaglen lleoliadau gwaith. Nododd AS fod y lleoliad gwaith cyntaf wedi dechrau ac y byddai gyda'r sefydliad am dair wythnos.
- 14.2. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Nododd y Cadeirydd mai dyma gyfarfod Bwrdd olaf Kate Crabtree a diolchodd iddi am ei holl waith ar ran y sefydliad a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.15.

Diwedd